Cadw

# Croeso i Gastell Cas-gwent

Castell cerrig cyntaf Cymru

## Beth i'w weld yng Nghastell Cas-gwent

1. Mae'r drysau hyn dros 800 oed — drysau hynaf unrhyw gastell yn Ewrop. Roedden nhw'n rhai arloesol — yn gwarchod porthdy deudwr cyntaf Prydain.
2. Rhyfeddwch at Dŵr Mawr Castell Cas-gwent, a adeiladwyd â cherrig trwy orchymyn Gwilym Goncwerwr, a'i godi hyd yn oed yn uwch gan y teulu Marshal.
3. Weithiau, byddai milwyr y castell yn mynd ar gyrch o'r Barbican Uchaf, gan lithro trwy'r cyrchborth cul.
4. Tybed a gewch chi'ch ysbrydoli gan yr olygfa hon i greu campwaith fel y gwnaeth yr arlunydd rhamantaidd, JMW Turner?
5. Cymerwch gip ar yr ystafelloedd byw Tuduraidd addurnedig â'r gratiau gwych yn y Beili Isaf.
6. Dychmygwch fyw'n foethus yn Nhŵr Marten, a adeiladwyd ar gyfer gwesteion, ond yna lle carcharwyd Henry Marten, a lofnododd warant ddienyddio Siarl I.
7. Câi gwleddoedd gwych eu creu yng ngheginau Bigod. Byddai gwinoedd da'n cael eu cludo ar yr afon a'u winsio i fyny i'r selerau gerllaw.
8. Mynedfa/siop.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadw.llyw.cymru




Ymunwch â Cadw i fwynhau mynediad diderfyn i 131 o safleoedd hanesyddol

### Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â'r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy'r amser.

Mae'r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae'n drosedd difrodi neu ddifwyno'r heneb.

Chepstow Croeso leaflet WELSH v3.indd 1 07/05/2024 15:50